

Y Rhaglen Diwygio Mynediad

Papur Adnabod Opsiynau: Grŵp Arbenigol 1
Newidiadau i Fynediad o Dan y Ddeddf Cefn
Gwlad a Hawliau Tramwy

Papur Adnabod Opsiynau: Diwygiadau 1A ac 1B

Cyflwyniad

Gwnaeth Grŵp Arbenigol 1 gwrdd ar 12 Mawrth 2020 i drafod opsiynau am sut i weithredu bwriad y polisi a nodir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Diwygiadau 1A ac 1B.

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei lunio yn dilyn ail gyfarfod Grŵp Arbenigol 1. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r prif opsiynau diwygio a nodir i'w gweithredu yn y ddau ddiwygiad.

Caiff yr opsiynau diwygio a nodir o gam hwn y broses grŵp arbenigol eu cyflwyno am ystyriaeth fanwl gan bob grŵp arbenigol. Bydd hyn yn cynnwys darparu mwy o fanylion a dadansoddi pob cynnig – gan gynnwys unrhyw elfennau cyffredin a/neu faterion trawsbynciol.

Dylid nodi bod cynnwys y papur hwn yn cyfrannu at ddatblygu cyngor i Lywodraeth Cymru ar gyfer diwygio deddfwriaeth mynediad fel rhan o'r Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad. Nid yw unrhyw wybodaeth neu allbynnau o'r fath a gynhyrchir yn ystod proses y Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad yn cynrychioli safbwynt polisi Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru nac unrhyw aelodau eraill o'r Grŵp Cyngori ar Ddiwygio Mynediad (grŵp llywio / grwpiau arbenigol).

Proses

Yn dilyn y cyfarfod cyntaf, gofynnwyd i aelodau ystyried y Papur Adnabod Problemau/Materion a oedd wedi'i greu ar gyfer pob diwygiad a chyflwyno 'Cynigion Amlinellol ar gyfer Opsiynau Diwygio' sy'n crynhoi'r dulliau posibl o weithredu bwriad y polisi a nodir ar gyfer pob diwygiad.

Cyflwynwyd ac ystyriwyd y cynigion diwygio amlinellol hyn gan aelodau'r grŵp arbenigol. Yna cymharwyd y cynigion amrywiol a'u grwpio yn ôl dulliau cyffredin.

Nid ystyriwyd yr opsiynau a oedd yn amlwg y tu allan i gwmpas y diwygiad a bwriad y polisi a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Yna ystyriwyd y cynigion a oedd yn weddill ymhellach mewn is-grwpiau. Gofynnwyd i'r is-grwpiau ychwanegu mwy o wybodaeth a manylion am yr elfennau allweddol y byddai angen i bob cynnig eu cynnwys, gan ystyried y materion allweddol a nodwyd yn y Papur Adnabod Problemau/Materion.

Diwygiad 1A

Adnabod opsiynau diwygio amlinellol

Gwnaeth cam cyntaf y broses nodi'r cynigion amlinellol eang canlynol ac a oeddent o fewn y cwmpas ac a ddylent gael eu hystyried ymhellach. Caiff yr opsiynau amlinellol eu crynhoi yn y tabl canlynol:

1A: Teitl y cynnig amlinellol	Disgrifiad cryno o'r cynnig amlinellol
i. Diwygio'r cyfyngiadau yn Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy	Diddymu cyfyngiadau ar hawliau uwch yn Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (ac eithrio 1B, tir arfordirol). Defnyddio trefn y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy gyda gwaharddiadau a chyfyngiadau fel y mae ar hyn o bryd / neu wedi newid. Cryfhau ymddygiadau cyfrifol, e.e. drwy god statudol.
ii. Defnyddio ¹ hawliau uwch, yn amodol ar asesiad o alw/addasrwydd	Defnyddio hawliau uwch yn ddetholus i ardaloedd diffiniedig o dir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn seiliedig ar asesiad o addasrwydd.
iii. Hawliau uwch ar lwybrau diffiniedig o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (dull coridorau)	Llwybr/coridor llinol diffiniedig drwy dir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy lle caiff cyfyngiadau Atodlen 2 eu diddymu ar gyfer gweithgareddau a nodir.

Cynigion ar gyfer opsiynau diwygio – nodi mwy o elfennau gofynnol

Ar gyfer pob un o'r cynigion amlinellol eang a nodwyd uchod, nodwyd disgrifiad cryno ac elfennau allweddol, neu gynhwysion, y byddai eu hangen gyda phob dull opsiwn arfaethedig. Caiff y rhain eu crynhoi isod ar gyfer pob cynnig amlinellol.

1A(i) Diwygio cyfyngiadau yn Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy

Disgrifiad o'r cynnig opsiwn amlinellol:

Diwygio Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn unol â bwriad y polisi ar gyfer tir mynediad presennol o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (ond nid tir arfordirol). Defnyddio trefn bresennol y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy gyda gwaharddiadau a chyfyngiadau fel y mae ar hyn o bryd / neu fel a ddiwygiwyd. Cynnwys cymal cyfrifoldeb wrth ddiddymu cyfyngiadau Atodlen 2. Diwygio trefn Rhan I o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i gryfhau ymddygiadau cyfrifol, e.e. drwy god statudol.

¹ Mae'r cyfeiriad at ddefnyddwyr hawliau uwch yn unol â bwriad y polisi ar gyfer Diwygiad 1A oni nodir yn wahanol

Elfennau allweddol yn y cynnig opsiwn diwygiedig ar gyfer Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy:

Cyfeirnod	1A(i) Elfen allweddol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Elfen amgen ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol
001.	Diwygio deddfwriaeth Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar gyfer tir mynediad	Cynnwys newidiadau 1A i Atodlen 2 i dir mynediad

Cyfeirnod	1A(i) Elfen allweddol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Elfen amgen ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol
	nad yw'n arfordirol er mwyn caniatáu gweithgareddau hamdden ychwanegol ar dir mynediad presennol yn unol â bwriad y polisi: • beicio, marchogaeth, barcuta a pharagleidio; ac ar ddyfroedd o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (ac eithrio cronfeydd dŵr); • llongau sy'n cael eu gyrru trwy ddulliau nad ydynt yn fecanyddol; ymdrochi/nofio	arfordirol pan fydd Diwygiad 1B yn cael ei weithredu Peidio ag ehangu hawliau i longau dŵr pweredig dan Atodlen 2, paragraff 1b.
002.	Byddai mapiau presennol y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn gymwys [h.y. dim gofyniad i ailfapio tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy gan fod mapiau o dir mynediad ond yn ôl mathau o dir diffiniedig – mynydd, rhos ac ati].	Byddai mapiau o dir mynediad arfordirol [Diwygiad 1B) hefyd yn gymwys.
003.	Byddai deddfwriaeth y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn gymwys, gan gynnwys: • Hawliau mynediad [gan gynnwys mapio – gweler uchod] • Y drefn o ran gwaharddiadau a chyfyngiadau • Modd mynediad	Byddai'r drefn ar gyfer tir mynediad arfordirol yn gymwys fel a ddiwygiwyd. Adolygu a diwygio'r drefn o ran gwaharddiadau a chyfyngiadau yn ôl yr angen am amgylchiadau o amgylch hawliau ychwanegol.
004.	Defnyddio cod mynediad statudol i ddiffinio hawliau a chyfrifoldebau.	Cod gwirfoddol
005.	Addysg a gwaith hyrwyddo ar gyfer y cod ymddygiad. Gorfodi'n gysylltiedig â chod statudol â mesurau, fel hysbysiadau cosb benodedig [gall yr arian sy'n weddill gael ei ddefnyddio i dalu costau mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy].	
006.	Darpariaeth i ganiatáu gwaith i wella hygyrchedd (symudedd) gatiau a chamfeydd. Mae'n rhaid i'r holl ddodrefn fodloni safonau hygyrchedd, fel safon BS5709, ar ôl cael eu disodli.	Cyllid gan awdurdodau lleol ar gyfer dodrefn neu gyllid cymunedol lleol, e.e. Cymdeithas Ceffylau Prydain.
007.	Symbol mynediad agored newydd ar gyfer arwyddion ar lawr gwlad (e.e. marciwr ffordd) – mae angen i'r dyluniad newydd gynnwys yr holl ddefnyddwyr. Yr Arolwg Ordnans a nodiant mapio arall i gydnabod bod hawliau gwahanol yn bodoli o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yng Nghymru.	

Cyfeirnod	1A(i) Efen allweddol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Efen amgen ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol
008.	Cyllid amaeth-amgylcheddol ar gael ar gyfer gwelliannau i fynediad a seilwaith ategol.	
009.	Tirfeddianwyr - adolygu eu hawl i apelio yn erbyn diffiniadau o fewn y ddeddfwriaeth bresennol.	
010.	Cyfleu newidiadau yng Nghymru – a Lloegr, yn enwedig mewn perthynas ag effaith drawsffiniol.	
011.	Atebolrwydd llai gan dirfeddianwyr yn unol â mynediad presennol o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy mewn perthynas â'r holl ddefnyddwyr. (i) Gall yr effaith ar feicio/marchogwyr fod yn uwch.	Defnyddio lefel atebolrwydd [sy'n gymharol is] Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir ar gyfer yr holl dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yng Nghymru. Am resymau iechyd a diogelwch, datblygu system cyfeirio gofodol hawdd i helpu i ddod o hyd i'r sawl sydd wedi bod yn rhan o ddigwyddiadau'n gynt.

Mae'n bosib i gynnig opsiwn gynnwys amrywiadau yn un neu fwy o'r elfennau allweddol, wrth gadw at y dull cyffredinol. Mae'r rhain wedi cael eu nodi uchod yn y tabl.

1A(ii) Defnyddio hawliau uwch yn amodol ar asesiad o addasrwydd

Disgrifiad o'r cynnig opsiwn amlinellol:

Defnyddio hawliau uwch yn ddetholus i ardaloedd diffiniedig o dir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn seiliedig ar asesiad o addasrwydd.

Elfennau allweddol yn y cynnig opsiwn diwygiedig ar gyfer Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy:

Cyfeirnod	1A(ii) Eifen allweddol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Eifen allweddol amgen ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol
001.	Pwerau dewisol wedi'u cynnwys yn Rhan I o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i awdurdodau mynediad ystyried addasrwydd tir mynediad diffiniedig o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar gyfer gweithgareddau sy'n gyfyngedig o dan Atodlen 2 yn eu hardal.	Dyletswydd ar awdurdodau mynediad i asesu holl dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn eu hardal ar amserlen dreigl.
002.	Pwerau i ddiffinio'r canlynol mewn rheoliadau: - meini prawf wrth asesu addasrwydd ar gyfer mynediad hawliau uwch i gael eu defnyddio ar dir mynediad - prosesau asesu a sut cânt eu defnyddio (gan gynnwys diffinio 'ardal o dir mynediad' at ddibenion asesu)	
003.	Pwerau i awdurdodau mynediad asesu addasrwydd tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar gyfer cymhwyso hawliau uwch	Pwerau i awdurdodau mynediad asesu addasrwydd tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar gyfer hawliau uwch
004.	Asesiadau a wneir yn ôl disgrisiwn yr awdurdod mynediad	Yr un peth
005.	Adolygiad fesul achos ar bob safle asesu / 'ardal o dir mynediad' – Diffinio pwy sy'n cynnal yr asesiad – awdurdod mynediad Cyrff eraill i ymgynghori â hwy am asesiad penodol sy'n ymwneud â swyddogaethau, e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadw ac ati. Meini prawf ar gyfer cynnal asesiad yn seiliedig ar angen/galw	Awdurdod perthnasol Rôl gynghorol i Fforwm Mynediad Lleol, Croeso Cymru

Cyfeirnod	1A(ii) Elfen allweddol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Elfen allweddol amgen ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol
	- Galw presennol a/neu gudd - Ardaloedd anghysbell ac ardaloedd poblogaidd - Tystiolaeth am y galw, e.e. monitro, Strava Dyletswydd – cynaliadwyedd – effeithiau ar: - Rheoli tir - Bywyd gwyllt - Treftadaeth hanesyddol - Eraill i'w diffinio	[NODER: a allai galw/effaith ormodol fod yn rheswm dros wrthod? Gallai greu safleoedd pot mêl.
006.	Byddai'r drefn o ran gwaharddiadau a chyfyngiadau o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn gymwys. Byddai unrhyw gyfyngiadau yn cael eu hystyried os bydd angen / lle bo angen <u>ar ôl</u> i'r hawliau uwch gael eu cymhwyso.	Darparu pwerau ar gyfer cyfyngiadau amddiffynnol yn seiliedig ar feini prawf clir o fewn y drefn ddiwygiedig ar gyfer gwaharddiadau a chyfyngiadau ar y cam asesu.
007.	Tirfeddianwyr/rheolwyr - Adnoddau i gynnal prosesau - Adnoddau o ran gwarcheidwaid i gefnogi rheolaeth ymarferol - Pwerau i fonitro ac ystyried effaith ar reoli tir - Pwerau i hwyluso croesi ffiniau cae neu ffiniau neu rwystrau eraill	<i>NODER: mae unrhyw ddull yn gofyn am gydymffurfiaeth â hawliau dynol / ni ddylid unrhyw ddull gwahaniaethu. Ystyried a yw dull dethol yn cydymffurfio ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd</i>
008.	Dyletswydd mapio'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn parhau i fod yn gymwys, gan gynnwys darparu mapiau fel ar hyn o bryd drwy fapiau ar-lein. Dylai mapiau gael eu llunio mewn modd sy'n gwahaniaethu rhwng yr hawliau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd gwahanol o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy	NODER: gofynion ar gyfer mapio ac ati wedi'u halinio â chanlyniad Diwygiad 3A [Mapio Mynediad Integredig]
009.	Pwerau i ddarparu arwyddion cysylltiedig; symbol/logo mynediad agored hawliau uwch newydd ar gyfer marcwyr ffyrdd ac arwyddion - Disgiau marcwyr ffyrdd newydd? - Arwyddion pwynt mynediad newydd? - Arwyddion cyfeiriadol?	

Cyfeirnod	1A(ii) Elfen allweddol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Elfen allweddol amgen ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol
010.	Newid Atodlen 2 yn unol â bwriad y polisi ar gyfer unrhyw ardaloedd asesedig o dir mynediad	Diwygio Atodlen 2 ar sail fwy cyfyngedig na bwriad y polisi, gan alluogi amrywiadau o ran hawliau uwch i ardaloedd dethol, e.e. i feicwyr a/neu farchogion yn unig.
011.		'Mynediad 'gwell' yn ôl y galw - Rôl sy'n cael ei phennu gan yr awdurdod unedol / Fforwm Mynediad Lleol - Mae hefyd yn gofyn am ffordd briodol o gael mynediad - Atodlen 2 wedi'i hymlacio
012.	Gwaharddiadau a chyfyngiadau i barhau fel y maent ar hyn o bryd	Adolygu gwaharddiadau a chyfyngiadau i addasu'r drefn ar gyfer hawliau uwch newydd
013.	Adolygu pwerau i alluogi gwelliannau i ffyrdd o gael mynediad i dir mynediad ac o'i fewn ar gyfer hawliau uwch ac mewn ffordd sy'n gymwys i dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn gyffredinol. Byddai'n cael ei ddefnyddio yn ôl disgresiwn yr awdurdod mynediad	
014.	Mynediad 'gwell' yn ôl addasrwydd - A all y tir ymdopi â'r pwysau? - Oes modd cael mynediad i'r tir? - Galw???	
015.	Atebolrwydd / gwaharddiadau a chyfyngiadau i helpu perchnogion/deiliaid – atebolrwydd llai yn parhau yn ystod gwaharddiadau a chyfyngiadau? – atebolrwydd (yr un peth â Lloegr – Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir)?	

Cyfeirnod	1A(ii) Eifen allweddol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Eifen allweddol amgen ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol
	– llai o atebolrwydd oherwydd niwed a achoswyd gan dda byw? – sathru o amgylch ardaloedd poblogaidd neu bwyntiau mynediad?	

1A(iii) Hawliau uwch ar lwybrau diffiniedig o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (dull coridor)

Disgrifiad o'r cynnig opsiwn amlinellol:

Ehangu'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i gynnwys pwerau i awdurdodau mynediad ddiffinio llwybrau/coridorau llinol drwy dir o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy lle mae cyfyngiadau hawliau uwch Atodlen 2 yn cael eu diddymu. Byddai deddfwriaeth y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn gymwys i lwybrau o'r fath yn gyffredinol.

Cyfeirnod	1A(iii) Elfennau allweddol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Eifen allweddol amgen ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol
001.	Diwygio'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i roi pwerau i awdurdodau mynediad ddiffinio llwybrau/coridorau llinol o dir mynediad o dan y Ddeddf lle mae hawliau uwch yn gymwys.	
002.	Byddai pwerau i awdurdodau mynediad ddiffinio llwybrau hawliau uwch o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn berthnasol i'r holl dir mynediad sydd eisoes yn bodoli sy'n ddynodedig neu'n neilltuedig o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Byddai defnyddio hawliau uwch mewn coridorau a nodir yn rhan o'r broses ddiffinio ac yn destun penderfyniad yr awdurdod mynediad. Dylid cynnwys tybiaeth ar gyfer mynediad lleiaf cyfyngol. Pwerau i lunio rheoliadau sy'n gosod proses ar gyfer diffinio coridorau hawliau uwch newydd, gan gynnwys: Ystyriaeth yn ôl disgrisiwn yr awdurdod mynediad, ymgeisio, asesu'r llwybr arfaethedig, penderfynu ar y llwybr arfaethedig; gweithredu, gan gynnwys Proses gynnig/asesu i ddiffinio ardaloedd lle gallai hawliau uwch newydd gael eu defnyddio, gan gynnwys:	Gallai hyn hefyd gael ei gymhwyso i dir mynediad a grëwyd ar yr arfordir (Diwygiad 1B) Dyletswydd i ystyried coridorau o fewn tir mynediad lle gallai hawliau uwch gael eu diffinio Ystyried defnyddio'r broses ar gyfer diffinio llwybrau a ddefnyddiwyd ar gyfer Llwybr Arfordir Lloegr o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir [ond nid deddfwriaeth Llwybrau Cenedlaethol]

Cyfeirnod	1A(iii) Elfennau allweddol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Elfen allweddol amgen ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol
	- [??] Cynnig yn ôl cais [unigol, Fforwm Mynediad Lleol]; neu - Gynnig gan ac yn ôl disgresiwn yr awdurdod mynediad - Asesu cynnig yn erbyn meini prawf gosodedig - Gofynion ymgynghori [i gynnwys Fforymau Mynediad Lleol] - Argymhelliad - Penderfyniad gan awdurdod mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy - Gweithredu llwybr [gan gynnwys ffordd o gael mynediad i dir ac o'i fewn] Meini prawf i'w diffinio yn y rheoliadau, gan gynnwys: galw/angen, nodweddion y llwybr [gan gynnwys dimensiynau'r coridor], hawliau mynediad cyfredol, nodweddion ffisegol, cadwraeth natur/treftadaeth	Gallai disgresiwn i gynnwys neu i beidio â chynnwys hawliau Atodlen 2 ar lwybrau diffiniedig eithrio dosbarthiadau penodol o ddefnyddwyr, fel e-feiciau
003.	Adolygu a datblygu deddfwriaeth bresennol ar gyfer gwaharddiadau a chyfyngiadau o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy er mwyn darparu ar gyfer llwybrau hawliau uwch o dan y Ddeddf; cynnwys pŵer i gyfyngu llwybrau o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn ôl gweithgaredd ac er mwyn atal neu wella difrod o ganlyniad i effeithiau gweithgareddau penodol. Cyfyngiadau a gwaharddiadau i lwybrau o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i gynnwys tybiaeth o deithio ymlaen ac i ganiatáu ar gyfer amrywio llwybr neu ddarparu llwybr gwahanol ar gyfer teithiau ymlaen o'r fath	
004.	Adolygu a diwygio adrannau 34–38 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i roi pwerau er mwyn i'r awdurdod mynediad hwyluso ffyrdd mynediad i dir mynediad ac oddi mewn iddo ar gyfer defnyddwyr â hawliau uwch [ac i bobl â phroblemau symudedd] lle y bo angen Pwerau i ddarparu arweiniad a chynghor ar y math o ddarpariaeth ar gyfer hwyluso hawliau uwch ac ar gyfer ystyried mynediad lleiaf cyfyngol.	Cadw adrannau 34–38 os yw dehongliad cyfreithiol yn nodi eu bod eisoes yn addas Dyletswydd i ddarparu arweiniad o'r fath.
005.	Cyflwyno cod statudol sy'n nodi cyfrifoldebau a hawliau mewn perthynas â hawliau newydd. Pwerau i gynnwys 'diddymu' hawliau a/neu ddarparu cosb o	

Cyfeirnod	1A(iii) Elfennau allweddol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol	Elfen allweddol amgen ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol
	ganlyniad i dorri'r cod. Pwerau gorfodi, gan gynnwys swyddogion enwebedig yr awdurdod lleol / awdurdod parc cenedlaethol [gan gynnwys hysbysiadau cosb benodedig] – yn ogystal â'r llysoedd a'r heddlu. Darparu adnoddau i ddatblygu a chefnogi'r cod, gan gynnwys gwybodaeth, addysg a gwaith hyrwyddo i bobl Cymru ac ymwelwyr. Dyletswydd i hyrwyddo'r cod ar gyfer Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r holl awdurdodau mynediad.	Datblygu cod mynediad statudol mewn perthynas â'r holl fynediad statudol

Diwygiad 1B

Adnabod opsiynau diwygio amlinellol

Gwnaeth cam cyntaf y broses nodi'r cynigion amlinellol eang canlynol ac a oeddent o fewn y cwrdd ac a ddylent gael eu hystyried ymhellach. Caiff yr opsiynau amlinellol eu crynhoi yn y tabl canlynol:

1B: Teitlau'r cynigion amlinellol	Disgrifiad cryno o'r cynigion amlinellol
i. Dull Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir	Dull Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir – diffinio ymyl arfordirol a llwybr arfordirol ar gyfer hamdden awyr agored ar lwybrau troed
ii. Ehangu'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i gynnwys tir arfordirol gan ddefnyddio adran 3	Ehangu'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy gan ddefnyddio pwerau adran 3 (ar gyfer hawliau ar droed yn unig) i greu pwerau cyffelyb i greu hawliau uwch naill ai drwy lwybr/coridor llinol neu yn ôl ardal.
iii. Ehangu'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i gynnwys tir arfordirol gan ddefnyddio adran 3, gyda phwerau i ddefnyddio hawliau uwch	Ehangu adran 3 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i dir arfordirol, gyda phosiblwydd defnyddio hawliau uwch drwy ddiwygiadau Atodlen 2 sy'n berthnasol i dir arfordirol

Cynigion ar gyfer opsiynau diwygio – nodi mwy o elfennau gofynnol

Ar gyfer pob un o'r cynigion amlinellol eang a nodwyd uchod, nodwyd disgrifiad cryno ac elfennau allweddol, neu gynhwysion, y byddai eu hangen gyda phob dull opsiwn arfaethedig. Caiff y rhain eu crynhoi isod ar gyfer pob cynnig amlinellol.

1B(i) Dull Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir [Lloegr]

Disgrifiad o'r cynnig opsiwn amlinellol:

Ehangu ar gyfer gweithgareddau ar droed (yn unol â'r hyn a ddarperir eisoes gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2020), fel bod y diffiniad o dir mynediad agored o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn cynnwys tir arfordirol neu fathau o gynefin cytunedig, e.e. twyni, traethau, rhos arfordirol. Mapio'r cynefinoedd hyn gan ddefnyddio'r un prosesau ag ar gyfer mapiau gwreiddiol y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Cynnwys y gallu i nodi llwybr Llwybr Arfordir Cymru drwy'r ardaloedd hyn fel llwybr diffiniedig. Defnyddio deddfwriaeth bresennol y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy

Elfennau allweddol yng nghynnig opsiwn Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir:

Ystyriwyd bod yr opsiwn mapio o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn gofyn am yr elfennau canlynol ynddo:

Cyfeirnod	1B(i) Elfennau allweddol ar gyfer cynnig opsiwn amlinellol dull Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir	Elfen amgen ar gyfer yr opsiwn
001.	Defnyddio'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i ddiffinio ymyl arfordirol ar gyfer lledaenu gofod sy'n gysylltiedig â llwybr arfordirol Llwybr Arfordir Cymru	
002.	Cynllun mynediad i'r arfordir diffiniedig ar gyfer gweithredu darpariaethau, gan gynnwys mapio'r ymyl arfordirol a diffinio 'llwybr arfordirol'.	
003.	Llwybr arfordirol sydd wedi'i ddiffinio fel llwybr cerdded pellter hir o dan Ddeddf 1949 – darpariaethau Llwybr Pellter Hir [statws Llwybr Pellter Hir ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru]. Caniatáu i Llwybr Arfordir Cymru gael ei gynnwys fel 'llwybr arfordirol'	Mae 'llwybr arfordirol' diffiniedig yn caniatáu hawliau cerdded, beicio a marchogaeth [i gyd dan Ddeddf 1949 – darpariaethau Llwybr Pellter Hir]
004.	Lleihau atebolrwydd i ddefnyddwyr hawliau ar gyfer tiffeddianwyr a rheolwyr tir	
005.	Nodi darpariaeth ar gyfer symud y llwybr arfordirol yn ôl	
006.	Darpariaeth ar gyfer rheoli'r ymyl arfordirol a llwybr arfordirol	
007.	Dyletswydd i 'awdurdodau mynediad' sicrhau'r mynediad lleiaf cyfyngol lle y bo'n bosib. Pwerau cysylltiedig ar gyfer gwella a rheoli seilwaith hygyrch i'r ymyl arfordirol	

Cyfeirnod	1B(i) Elfennau allweddol ar gyfer cynnig opsiwn amlinellol dull Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir	Elfen amgen ar gyfer yr opsiwn
	ac oddi fewn iddo ac ar gyfer y llwybr arfordirol.	
008.	Tir y Goron i gael ei gynnwys yn yr ymyl arfordirol ac ar gyfer y llwybr arfordirol	
009.	Gweithdrefnau ar gyfer prosesau mapio tir arfordirol	
010.	Y drefn ar gyfer gwaharddiadau a chyfyngiadau – wedi'i diwygio i sicrhau y cedwir mynediad i Lwybr Arfordir Cymru ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol	
011.	Ailddiffinio tir eithriedig	
012.	Cod hamdden – diwygio'r Cod Cefn Gwlad	Cod statudol yn nodi cyfrifoldebau a hawliau
013.	Hawliau'n benodol i'r sawl sy'n cerdded yn unig	Neu fel yn ôl Diwygiad 1A

Mae'n bosib i gynnig opsiwn gynnwys amrywiadau yn un neu fwy o'r elfennau allweddol, wrth gadw at y dull cyffredinol. Mae'r rhain wedi cael eu nodi uchod yn y tabl.

1B(ii) 'Adran 3 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, mapio tir arfordirol ar gyfer mynediad ar droed'

Disgrifiad o'r cynnig opsiwn amlinellol:

Defnyddio adran 3 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i ehangu hawliau mynediad ar droed i fathau o dir arfordirol. Byddai'r diffiniad o dir mynediad agored o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn cael ei ehangu i gynnwys mathau o dir arfordirol diffiniedig, e.e. twyni, traethau, gwastatiroedd arfordirol, clogwyni a rhosydd. Byddai'r mathau hyn o dir arfordirol yn cael eu mapio gan ddefnyddio'r un prosesau ag ar gyfer mapiau gwreiddiol Rhan 1 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Cynnwys pwerau i ddiffinio llwybr neu goridor arfordirol llinol at ddefnydd defnyddwyr hawliau uwch. Defnyddio deddfwriaeth bresennol Rhan I o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar gyfer rheoli tir mynediad arfordirol, yn destun adolygiad o ddigonolrwydd darpariaethau presennol, yn benodol gwaharddiadau a chyfyngiadau. Darparu cod mynediad statudol a fyddai'n cynnwys cyfrifoldebau mewn perthynas â thir mynediad arfordirol [ynghyd â mynediad cyhoeddus arall].

Elfennau allweddol o fewn cynnig opsiwn 'Adran 3 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, mapio tir arfordirol ar gyfer mynediad ar droed:

Ystyriwyd bod yr opsiwn mapio o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn gofyn am yr elfennau canlynol ynddo:

Cyfeirnod	1B(ii) Elfen allweddol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol am ddefnyddwyr ar droed o dan adran 3 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy	Elfen amgen ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol*
1.	Defnyddio adran 3 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy er mwyn caniatáu i dir arfordirol gael ei fapio fel tir mynediad ar gyfer hamdden awyr agored ar droed	Newid Pennod 3 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i sicrhau mynediad ar hyd y llain arfordirol. Gellid ei wneud ar yr un pryd neu'n ddiweddarach. Gallai'r llwybr arfordirol fod yn Llwybr Arfordir Cymru neu ei ddiffinio ar wahân, p'un bynnag sydd agosaf.
2.	Datblygu diffiniadau o dir arfordirol y byddai hawliau o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (ar droed) yn berthnasol iddo. Cynnwys blaendraeth, clogwyni arfordirol, twyni, gwastatiroedd, traethau, rhos arfordirol	
3.	Diwygio rheoliadau mapio i adlewyrchu newid – gan gynnwys diffinio parseli tir	
4.	Gweithdrefnau ar gyfer prosesau mapio ac ymgynghori yn unol â'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy – gan gynnwys diffinio ffin y mewndir	
5.	Lleihau atebolrwydd tîrfeddianwyr/rheolwyr tir yn unol â'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.	Lleihau atebolrwydd tîrfeddianwyr/rheolwyr tir yn unol ag ymyl arfordirol Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir Lloegr.
6.	Y drefn ar gyfer gwaharddiadau a chyfyngiadau fel y mae o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar hyn o bryd	Wedi'i hadolygu a'i diwygio i gynnwys gofynion sy'n benodol i'r arfordir, e.e. rhesymau dros gau sy'n benodol i dir arfordirol; gwaharddiadau a chyfyngiadau i ddarparu ar gyfer teithiau ymlaen; diddymu darpariaethau am 28 niwrnod o waharddiadau a chyfyngiadau drwy hysbysiad.
7.	Adolygu ac ailddiffinio tir sydd wedi'i eithrio o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i sicrhau cymhwysedd i gyd-destun arfordirol	

Cyfeirnod	1B(ii) Elfen allweddol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol am ddefnyddwyr ar droed o dan adran 3 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy	Elfen amgen ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol*
8.	Ehangu pwerau o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy er mwyn caniatáu am reoli mynediad o fewn tir mynediad arfordirol, gan gynnwys croesi ffiniau – at ddibenion hamdden a rheoli tir a defnyddio dull seiliedig ar awdurdodau lleol a rhanbarthol	
9.	Cyflwyno cod mynediad statudol sy'n cynnwys hawliau a chyfrifoldebau, gan gynnwys darpariaethau penodol ar gyfer mynediad i'r arfordir	Ehangu'r ddyletswydd i hyrwyddo'r cod statudol i gyrff cyhoeddus eraill, fel sy'n briodol
10.	Mae'r hawliau'n berthnasol i'r sawl ar droed yn unig [Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy fel y mae ar hyn o bryd]	Mae hawliau'n berthnasol yn unol â Diwygiad 1A
11.	Dengys tir arfordirol o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o fapiau Cyfoeth Naturiol Cymru a mapiau'r Arolwg Ordnans o dan y Ddeddf	Cynnwys tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy mewn darpariaethau yn Niwygiad 1A fel sy'n briodol
12.	Dyletswydd i ddiffinio 'llwybr arfordirol hawliau uwch' o fewn tir arfordirol lle y bo'n addas. Nodi proses ar gyfer asesu addasrwydd. Darpariaethau deddfwriaethol ar gyfer rheoli'r llwybr, gan gynnwys ei symud yn ôl.	Defnyddio dull math deddfwriaethol llwybr arfordirol Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir ar gyfer hawliau uwch o fewn tir mynediad arfordirol lle mae asesu'n nodi ei fod yn addas
13.	Diffiniadau o 'weithgarwch masnachol' a 'digwyddiadau'. Ailddiffinio'r hyn sy'n dod o fewn neu y tu allan i hawliau ar ôl cynnal adolygiad. Dechrau gydag ystyriaeth o'r diffiniadau a ddefnyddir yn Neddf Diwygio Tir yr Alban. Defnyddio pwerau rheoleiddio i'w gwneud yn haws diogelu at y dyfodol.	Dylai unrhyw ddiffiniadau diwygiedig gael eu hystyried yn [o leiaf] Diwygiad 1A

*Mae'n bosib i gynnig opsiwn gynnwys amrywiadau yn un neu fwy o'r elfennau allweddol, wrth gadw at y dull cyffredinol. Mae'r rhain wedi cael eu nodi yn y tabl.

1B(iii) Adran 3 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy gyda mapiau hawliau uwch o dir arfordirol

Disgrifiad o'r cynnig opsiwn amlinellol:

Defnyddio adran 3 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i ehangu hawliau mynediad **ar droed ac ar gyfer hawliau uwch** i fathau o dir arfordirol. Byddai'r diffiniad o dir mynediad agored o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn cael ei ehangu i gynnwys mathau diffiniedig o dir arfordirol, e.e. twyni, traethau, rhos arfordirol. Mapio'r mathau hyn o dir arfordirol gan ddefnyddio'r un prosesau ag ar gyfer mapiau gwreiddiol y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy. Cynnwys pwerau i ddiffinio llwybr neu goridor llinol at ddefnydd defnyddwyr hawliau uwch. Defnyddio deddfwriaeth bresennol Rhan I o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar gyfer rheoli tir mynediad arfordirol, yn destun adolygiad o ddigonolrwydd darpariaethau presennol, yn benodol gwaharddiadau a chyfyngiadau. Darparu cod mynediad statudol a fyddai'n cynnwys cyfrifoldebau mewn perthynas â thir mynediad arfordirol [ynghyd â mynediad cyhoeddus arall].

Elfennau allweddol o fewn cynnig opsiwn mapio tir arfordirol adran 3 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy:

Ystyriwyd bod yr opsiwn mapio o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn gofyn am yr elfennau canlynol ynddo:

Cyfeirnod	1B(iii) Elfen allweddol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol hawliau uwch o dan adran 3 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy	Elfen amgen ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol*
001.	Defnyddio gorchymyn adran 3 o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i alluogi tir arfordirol diffiniedig i gael ei fapio fel tir mynediad ar gyfer hamdden awyr agored at ddefnydd hamdden hawliau uwch	Newid Pennod 3 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy
002.	Trwy reoliadau, ymlacio darpariaethau yn Atodlen 2 i'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i ganiatáu hawliau uwch ar dir arfordirol diffiniedig.	
003.	Nid effeithir ar Lwybr Arfordir Cymru – bydd yn parhau fel y mae ar hyn o bryd	Darparu ar gyfer diffinio llwybr arfordirol o fewn tir mynediad arfordirol lle nad oes llwybr yn bodoli ar gyfer Llwybr Arfordir Cymru neu'n ffinio ag ef ar hyn o bryd
004.	Datblygu diffiniadau o dir arfordirol lle byddai hawliau [uwch] o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn berthnasol. Cynnwys blaendraeth, clogwyni arfordirol, twyni, gwastatiroedd, traethau, rhos arfordirol	

Cyfeirnod	1B(iii) Elfen allweddol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol hawliau uwch o dan adran 3 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy	Elfen amgen ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol*
005.	Diwygio rheoliadau mapio i adlewyrchu newid – gan gynnwys diffinio parseli tir	
006.	Gweithdrefnau ar gyfer prosesau mapio ac ymgynghori yn unol â'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy – gan gynnwys diffinio ffin y mewndir	
007.	Lleihau atebolrwydd tirfeddianwyr/rheolwyr tir mynediad arfordirol yn unol â thir mynediad presennol o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy	Lleihau atebolrwydd tirfeddianwyr/rheolwyr tir yn unol ag ymyl arfordirol Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir Lloegr.
008.	Y drefn ar gyfer gwaharddiadau a chyfyngiadau fel y mae ar gyfer tir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar hyn o bryd, gan gynnwys hysbysiadau ar y tir ac ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru	Adolygu gwaharddiadau a chyfyngiadau i gynnwys gofynion sy'n benodol i'r arfordir, e.e. rhesymau priodol dros gau tir arfordirol a chaniatáu ar gyfer teithiau ymlaen. Diddymu hysbysiadau am hyd at 28 niwrnod y flwyddyn Neu gadw 28 niwrnod ond bod yn rhaid darparu llwybr ymlaen ar bob adeg.
009.	Adolygu ac ailddiffinio tir sydd wedi'i eithrio o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy i sicrhau cymhwysedd i gyd-destun arfordirol	
010.	Darparu pwerau ar gyfer rheoli mynediad ar dir mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, gan gynnwys croesi ffiniau at ddibenion hamdden a rheoli tir	
011.	Cyflwyno cod mynediad statudol sy'n cynnwys hawliau a chyfrifoldebau, gan gynnwys darpariaethau penodol ar gyfer mynediad i'r arfordir	Ehangu'r ddyletswydd i hyrwyddo'r cod statudol i gyrrff cyhoeddus eraill, fel sy'n briodol
012.	Dengys tir arfordirol o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o fapiau Cyfoeth Naturiol Cymru a mapiau'r Arolwg Ordhnans o dan y Ddeddf	Cynnwys tir mynediad arfordirol o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy mewn darpariaethau yn Niwygiad 1A fel sy'n briodol

Cyfeirnod	1B(iii) Efen allweddol ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol hawliau uwch o dan adran 3 o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy	Efen amgen ar gyfer y cynnig opsiwn amlinellol*
013.	Diffiniadau o 'weithgarwch masnachol' a 'digwyddiadau'. Ailddiffinio'r hyn sy'n dod o fewn neu y tu allan i hawliau ar ôl cynnal adolygiad. Dechrau gydag ystyriaeth o'r diffiniadau a ddefnyddir yn Neddf Diwygio Tir yr Alban. Defnyddio pwerau rheoleiddio i'w gwneud yn haws diogelu at y dyfodol.	Dylai unrhyw ddiffiniadau diwygiedig gael eu hystyried yn [o leiaf] Diwygiad 1A

*Mae'n bosib i gynnig opsiwn gynnwys amrywiadau yn un neu fwy o'r elfennau allweddol, wrth gadw at y dull cyffredinol. Mae'r rhain wedi cael eu nodi yn y tabl.

Atodiad A

Aelodau o'r grŵp arbenigol oedd yn bresennol yn y cyfarfod:

Enw	Sefydliad
Richard Ball	Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Hugh Craddock	Y Gymdeithas Mannau Agored
Sophie Derryhouse	Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
Arwel Evans	Cyngor Ynys Môn
Kieran Foster	Beicio'r DU
Jonathan Hughes	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Elfyn Jones	Cyngor Mynyddu Prydain
Rachel Lewis-Davies	Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
James Nevitt	Y Weinyddiaeth Amddiffyn
Rhian Nowell Phillips	Y Gynghair Cefn Gwlad
Pete Rutherford	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Mark Weston	Cymdeithas Ceffylau Prydain
Sarah Smith	Llywodraeth Cymru
Joseph Roberts	Cyfoeth Naturiol Cymru
Chris Heaps	Cyfoeth Naturiol Cymru
Jont Bulbeck	Cyfoeth Naturiol Cymru
Jayne Carter	Cyfoeth Naturiol Cymru